

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
6 Gorffennaf 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Mirain Llwyd Owen, Math Williams, Wynn Roberts, Geraint Strello, Peter Garlick, Cadi Sion

Cadeirio: Gwyneth Thomas

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

Croesawodd yr is-gadeirydd y 6 aelod newydd a gyfetholwyd fis diwethaf, ac fe longyfarchwyd Peter Garlick ar gael ei ethol i gynrychioli Bontnewydd yng Nghyngor Gwynedd. Llofnododd yr Aelodau newydd ddatganiad derbyn swydd.

1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams, Erddyn Davies, Ifor Dylan Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin 2017, ond gofynnodd y Cyngorydd Gwyneth Thomas am y newid canlynol i eitem 4.2:-

Ychwanegu:- "Gofynnodd y Cyngorydd Gwyneth Thomas am eglurhad o drefn rheoli'r Ganolfan, ac eglurodd y Cyngorydd Dafydd Iwan mai adeilad y Cyngor Cymuned yw'r Ganolfan, a'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am Y Ganolfan yn y pen draw, ond bod Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan yn gyfrifol am redeg Y Ganolfan o ddydd i ddydd. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn atebol i'r Cyngor Cymuned."

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Arwydd Rhes Magdalen

Nid yw'r arwydd wedi ei osod. Deallir fod swyddogion y Cyngor wedi bod yno i geisio gosod yr arwydd ond wedi methu oherwydd fod ceir wedi parcio o'i flaen. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad unwaith eto.

4.2 Cyflwr Y Ganolfan

Cyflwynodd y Cyngorydd Dafydd Iwan adroddiad byr ar sefyllfa ariannol Y Ganolfan. Mae angen gwario ar y gegin ac ar y system wresogi. Bydd y Cyngorydd Dafydd Iwan yn darparu

prisiau am y gwaith yma yn fuan, a chopi o'r cyfrifon.

Mae cadw lefel defnydd presennol Y Ganolfan yn hanfodol o ran diogelu incwm, ond nid hawdd hynny gyda thoriadau ariannol cyson yn effeithio ar y mudiadau hynny sy'n defnyddio'r Ganolfan.

4.3 Tacluso Llefydd Parcio Lôn Groes

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt dacluso'r tyfiant yn llefydd parcio Lôn Groes. Gobeithir y bydd y gwaith yn cael ei wnedu pan fydd y giang cymunedol yn galw heibio'r ardal yn fuan.

4.4 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Cafodd y clerch eglurhad gan Lywodraeth Cymru am yr angen i gael mynediad i Gae Stanley wrth i'r ffordd osgoi gael ei hadeiladu.

Mae angen mynediad er mwyn medru gwneud arolwg ystlumod yn bennaf, ac o bosibl arolygon amgylcheddol.

4.5 Enwau Ffyrdd Llanfaglan

Nododd y Cyngorydd Ifor Dylan Williams fod enwau anghywir yn cae eu denfyddio gan Gyngor Gwynedd ac eraill ar ffyrdd yn ardal Llanfaglan. Penderfynwyd gohirio trafod y mater yma gan mai gwell fyddai ei drafod pan y byddai'r Cyngorydd Ifor Dylan Williams yn bresennol.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mehefin 2017

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau postio £2.24

5.3 Ad-daliad Treth ar Werth 2016/17 £49.80

5.4 Balans yn y Banc 6 Gorffennaf 2017- £13,449.44

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

6.1 Cais cynllunio - C17/0580/19/LL – Cais i godi annedd newydd ar gyfer gweithiwr amaethyddol hanfodol, Fferm y Ddôl, Lôn Foryd, Llanfaglan, LL54 5RA

Dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

- Llythyr diolch Ysgol Gynradd Bontnewydd
- Llythyr diolch Cymdeithas Undebol Bontnewydd
- Dyddiadau Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor Un Llais Cymru
- Cynllun Cyfieithu Cymunedol – Hunaniaith
- Antur Waunfawr – Cylchdro Llanwnda a beicwyr

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth, ac fe gytunwyd gyda sylwadau Antur Waunfawr, sef i gadw beicwyr, cerddwyr a cheir arwahân wrth iddynt groesi cylchdro'r Goat i ymuno â Lôn Eifion.

8. MATERION ERAILL

8.1 Llysiâu'r Cythraul Bontnewydd

Adroddodd y Cynghorydd Geraint Strello fod llysiâu'r cythraul yn tyfu ar ochr yr afon Gwyrfai/ochr y ffordd o bont rheilffordd Eryri at Gae Samuel. Bu iddo gysylltu â Chyngor Gwynedd a adroddodd mai nid hwy oedd yn gyfrifol.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn ar ba sail yr oeddynt yn gwrthod cyfrifoldeb, oherwydd fe dybir mai perchennog y ffordd sy'n gyfrifol am wely afon hyd at ganol yr afon os yw afon yn rhedeg yn gyfochrog â'r ffordd.

Bydd y Clerc yn ysgrifennu hefyd at Gyfoeth Naturiol Cymru parthed y mater.

8.2 Sbwriel o lorïau ailgylchu

Er i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn nodi fod y lori ailgylchu fach yn colli sbwriel yn aml wrth fynd o gwmpas ei thaith, ac i Gyngor Gwynedd addo datrys y problem, mae'r problem yn parhau.

Wedi i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd unwaith eto, cadarnhawyd fod y problem wedi ei thynnu at sylw yr Arweinyddion Tîm sydd yn gyfrifol am y criw a cherbydau casglu, a bod gofyn wedi bod i'r Tîm Glanhau Strydoedd roi sylw i'r ardal.

8.3 Bandeang Lanfaglan

Trafodwyd yr amrywio sylweddol yng nghyflymder bandeang yn ardal Lanfaglan, ar gais y Cynghorydd Ifor Dylan Williams. Mae rhai tai yn medru cael bandenag cyflym iawn, tra bo eraill yn ffodus i gael 1 MB, er yn talu'r un faint. Ni ellir gweithio o adref na defnyddio'r we ar gyfer pwrpasau eraill yn effeithiol. Mae'r sefyllfa felly'n annerbyniol.

Yn ôl y Cyngorydd Geraint Strello, efallai y bydd arian ychwanegol ar gael i wella'r ddarpariaeth i'r rheini sy'n derbyn gwasanaeth araf ar hyn o bryd, ond y broblem yw fod y cyflymder yn dibynnu ar belleteroedd eiddo o'r gyfnewidfa agosaf, ac fel yn achos y Post Brenhinol, mae'n costio llawet mwy i ddarparu gwasanaeth i ardaloedd gwledig, ac heb arian ychwanegol gan y Llywodraeth, mae'n annhebygol y bydd y ddarpariaeth gan unrhyw ddarparwr bandeang yn gwella'n fuan yn yr ardaloedd glwedig yma.

8.4 Ymgynghoriad Cyhoeddus Teithio Llesol

Bydd cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus yn cychwyn ar ddydd **Mercher 28 Mehefin 2017** ac yn parhau am 12 wythnos tan ddydd **Mercher 20 Medi 2017**. Bydd cyfle i unrhyw un leisio eu barn ar ddarpariaeth Fapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer cerddwyr a beicwyr yng Ngwynedd.

Cynhelir sesiynau galw draw yn llyfrgell Caernarfon ar y 24 o Orffennaf.

8.5 Ymddygiad Tenant

Derbyniwyd cwynion am ymddygiad tenant sy'n rhentu ty preifat yn rhan ddeheuol o Fontnewydd. Mae'r cwynion yn ywneud â lori yn parcio ar y palmant a deunydd sgrap yn cael ei adael yn yr ardd o flaen y ty.

Tra'n derbyn fod yr eiddo yn un preifat, cytunodd y Cyngorydd Peter Garlick i gysylltu â Chyngor Gwynedd parthed y mater rhag ofn bod yna oblygiadau iechyd a diogelwch ffyrdd, neu arall.

8.6 Adroddiad gan y Cyngorydd Peter Garlick

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cyngorydd Peter Garlick o'r problemau y bu gofyn iddo ymdrin â hwy ers cael ei ethol yn Gyngorydd Sir. Dyma grynodedb:-

- Lôn Penbryn i Rosbach i gael ei hail-wynebu fis awst
- Gofyniad am arwydd yn Stâd Llwyn Beuno er mwyn arafu'r traffig sy'n mynd heibio'r cae chwarae
- Mae'r ffens haearn sy'n amddiffyn y cylfyrnt mewn cyflwr gwael. Mae Cyngor Gwynedd yn edrych ar y mater, ond mae'n debyg nad oes cytundeb ar bwy sydd yn gyfrifol amdani.
- Wedi i ffordd osgoi Bontnewydd agor, bydd statws y ffordd bresennol drwy Fontnewydd yn cael ei israddio, ond mae'n debyg y bydd arian ychwanegol bryd hynny i wneud addasiadau i'r ffordd drwy'r pentref.
- Mae'n anodd i drigolion sy'n byw oddi ar Lôn Groes dynnu allan i Lôn groes, ac mae'r Cyngorydd Peter Garlick yn mynd i ystyried pa ddatrysiad e.e. drych, fyddai'n briodol a thrafod yn y cyfarfod nesaf.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7 Medi am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

